

Ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys

**Deall arweiniad NICE –
gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y
weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys
Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y
weithdrefn, a'r cyhoedd**

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2004

I archebu copïau

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0633. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0632. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0631.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-700-X

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Gorffennaf 2004

Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

©Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Gorffennaf 2004 .
Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at
ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o
fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau
masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad
Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	4
Ynglŷn ag ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys	5
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	8
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	9
Gwybodaeth bellach	10

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddsbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio'n rheolaidd i drin anffrwythlondeb sydd wedi'i achosi gan rwystr yn y tiwbiau ffalopaidd.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys a pha mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cleifion a'r gofalgwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

Ynglŷn ag ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys

Y tiwbiau sy'n cysylltu'r ofarïau â'r groth (a elwir hefyd yn wterws) yw'r tiwbiau ffalopaidd. Bob mis, caiff wŷ ei ryddhau o un o'r ofarïau gan deithio i lawr un o'r tiwbiau ffalopaidd i'r groth. Os bydd y ferch yn cael rhyw a bod sberm y dyn yn ffrwythloni'r wŷ ar ei daith, bydd y ferch yn beichiogi. Ond os oes problem yn y tiwb ffalopaidd, er enghraifft, os yw wedi'i rwystro mewn ryw ffordd, mae'n bosibl y bydd y broses ffrwythloni yn llawer llai tebygol o ddigwydd ac y bydd y ferch yn ei chael hi'n anos na'r disgwyl i feichiogi.

Ystyr ailsianelu yw cael gwared â'r rhwystr yn y tiwb. Cynhelir y weithdrefn ailsianelu ar yr un pryd ag y caiff y ferch brawf pelydr X i wirio p'un a yw'r tiwb ffalopaidd wedi'i rwystro (gelwir y prawf hwn yn salpinograffi diagnostig). Bydd y meddyg yn gwirio p'un a yw'r tiwb wedi'i rwystro ac os ydyw a'i fod o'r farn y byddai'n gymharol hawdd clirio'r rhwystr, bydd y meddyg yn ceisio'i glirio yn y fan a'r lle.

Rhoddir tiwb cul o'r enw cathetr i mewn i'r tiwb ffalopaidd (gall hyn ynddo'i hun agor y tiwb). Yna, bydd y meddyg yn chwistrellu rhywfaint o liw drwy'r cathetr ac i mewn i'r tiwb ffalopaidd. Gellir gweld y lliw hwn gan ddefnyddio pelydrau X, ac felly bydd y meddyg yn gallu gweld p'un a ddaw yn syth allan o ben y tiwb ffalopaidd neu p'un a gaiff ei atal gan rwystr. Unwaith eto, mae'n bosibl y bydd y chwistrelliad hwn yn ddigon i gael gwared â'r rhwystr. Ond os bydd rhwystr yn y tiwb o hyd, bydd y meddyg yn pasio gwifren gul drwy'r cathetr ac yn ei symud o amgylch er mwyn ceisio agor y tiwb ffalopaidd.

Mae dulliau eraill o agor y tiwbiau ffalopaidd yn cynnwys chwythu balŵn bach yn araf yn y tiwb sydd wedi'i rwystr, neu lawdriniaeth i gael gwared â'r rhwystr.

Pa mor dda y mae'n gweithio

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn un astudiaeth:

- cafodd 321 o blith 417 o diwbiau ffalopaidd (mewn 302 o ferched) eu hagor yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r weithdrefn (77% o'r tiwbiau lle roedd rhwystr)
- beichiogodd 30 o blith 302 o'r merched a gafodd y weithdrefn heb gael rhagor o driniaeth ffrwythloni o fewn 12 mis o gael y weithdrefn (sef 10% o'r merched yn yr astudiaeth). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai rhai neu bob un o'r merched hyn wedi beichiogi heb y driniaeth.

Mewn astudiaeth arall:

- llwyddwyd i agor tiwb neu diwbiau ffalopaidd 176 o blith 234 o ferched o ganlyniad i'r weithdrefn (75% o'r merched yn yr astudiaeth)
- aeth 39 o blith y 176 o ferched hyn ymlaen i gael beichiogrwydd normal (22% o'r merched yr agorwyd eu tiwb neu eu tiwbiau). Unwaith eto, mae'n bosibl y byddai rhai neu bob un o'r merched hyn wedi beichiogi heb y driniaeth.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd un arbenigwr y byddai llwyddiant y weithdrefn yn gyffredinol yn dibynnu ar feddygon yn sicrhau eu bod ond yn ei chynnig i ferched a fyddai'n debygol o gael canlyniad llwyddiannus.

Risgiau a phroblemau posibl

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Un o brif problemau'r weithdrefn hon yn yr astudiaethau oedd niwed i'r tiwb ffalopaidd (rhwygo). Yn yr astudiaeth a oedd yn cynnwys 417 o diwbiau ffalopaidd mewn 302 o ferched, digwyddodd hyn i 4 tiwb (1%). Ar ben arall y raddfa, niweidiwyd tiwbiau 4 o blith 38 o ferched yn y ffordd hon mewn astudiaeth arall (11% o'r merched).

Problem arall a all ddigwydd os bydd y tiwb ffalopaidd wedi'i niweidio mewn unrhyw ffordd yn ystod y weithdrefn yw bod ŵy wedi'i ffrwythloni yn symud yn araf neu yn cael ei ddal yn y tiwb ffalopaidd ar ei ffordd i'r groth. Gelwir hyn yn feichiogrwydd tiwbaidd neu ectopig. Digwyddodd hyn i 1 o blith 234 o ferched (0.4%) mewn un astudiaeth, ond i 3 o blith 38 o ferched (8%) mewn un arall.

Roedd y problemau eraill yn yr astudiaethau yn cynnwys:

- haint – cafodd 2 o blith 234 o ferched haint mewn un astudiaeth

- poen digon gwael i orfod cymryd tabledi lladd poen – dioddefodd 7 o blith 234 o ferched hyn mewn un astudiaeth, a 4 o blith 150 o ferched mewn astudiaeth arall.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Credai'r arbenigwyr mai'r prif broblemau posibl fyddai niwed i'r tiwb ffalopaidd (rhwygo), gwaedu yn yr abdomen, a haint.

Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys. Dywedodd NICE nad yw'n bosibl dweud o'r astudiaethau a wnaed hyd yma p'un a yw'r weithdrefn yn gwella siawns merch o feichiogi mewn gwirionedd – hynny yw, mae'n bosibl nad yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol.

Mae wedi argymhell pan fydd meddygon yn ei defnyddio ar gyfer tiwbiau ffalopaidd lle ceir rhwystr, y dylent sicrhau:

- bod y ferch yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro (dylai hyn gynnwys nifer y merched sy'n beichiogi ar ei hôl).

Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi gwneud nifer o sylwadau am y weithdrefn hon. Yn gyntaf, nid yw agor tiwb ffalopaidd yn llwyddiannus o anghenraid yn golygu y bydd y ferch yn beichiogi ar ôl y weithdrefn. Hefyd, ceir risg y caiff y tiwb ei niweidio yn ystod y weithdrefn, a gallai hyn ei gwneud yn anos i'r ferch feichiogi.

Ac er bod canlyniadau'r astudiaethau yn dangos bod risg o feichiogrwydd tiwbaid ar ôl y weithdrefn, mae'r risg yn gyffredinol uwch ymysg merched sy'n dioddef o broblemau tiwbaid beth bynnag, hyd yn oed pe na chaent y weithdrefn.

Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da iddi gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny dylech ddeall manteision a risgiau ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys cyn i chi gytuno i'r weithdrefn, a dylech hefyd ddeall nad yw cael y weithdrefn o anghenraid yn golygu y byddwch yn fwy tebygol o feichiogi. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar ailsianelu'r tiwb ffalopaidd gan ddefnyddio gwifrau tywys ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG071guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0631. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau ffrwythlondeb, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Gorffennaf 2004